Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

CYNLLUN CASGLU
COLLECTORPLAN

# AMODAU AELODAETH CYNLLUN CASGLU

## 1. Diffiniadau a Dehongliadau

1.1 Yn yr Amodau hyn, bydd i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol.

| | |
|---|---|
| **Prynwr** | unigolyn preifat sy'n gwneud cais am fenthyciad Cynllun Casglu |
| **Aelodau** | orielau sydd wedi cofrestru gyda gwasanaeth Cynllun Casglu Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Gweithiau Gwreiddiol** | darn o waith celfyddydol neu grefftwaith a gynhyrchwyd gan yr artist neu'r gwneuthurwr a enwir gan ddefnyddio prosesau cynhyrchu a fu dan reolaeth bersonol yr artist neu'r gwneuthurwr dan sylw |
| **Artist Proffesiynol** | artist neu wneuthurwr a dderbyniodd hyfforddiant, a enillodd gymwysterau ac sydd yn artist gweithredol â phrofiad blaenorol o gynhyrchu a/neu werthu Gwaith Gwreiddiol. Os oes unrhyw amheuaeth, gellir cyflwyno CV yr artist i'w ystyried gan Gyngor Celfyddydau Cymru |
| **Gweithiau** | darn o waith celfyddydol neu grefftwaith sy'n cyrraedd y meini prawf a nodir yn amod 6 |

## 2. Cyflwyniad

2.1 Gwasanaeth a weithredir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw'r Cynllun Casglu. Drwy'r Cynllun Casglu, gall unigolion preifat gael benthyg arian (yn ddi-log) i gynorthwyo i brynu Gweithiau oddi wrth orielau yng Nghymru sy'n Aelodau o wasanaeth Cynllun Casglu.

2.2 Mae'r amodau hyn yn disgrifio gwasanaeth Cynllun Casglu a'r amodau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu aelodaeth oriel. Bydd pob disgrifiad o'r Cynllun Casglu a phob hysbyseb, datganiad neu gyhoeddiad yn ymwneud ag ef yn seiliedig ar wasanaeth Cynllun Casglu fel a amlinellir yn yr amodau hyn ac yn gyson â hynny.

2.3 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadw'r hawl i wneud newidiadau neu ddiwygiadau i'r polisïau, y gweithdrefnau, y rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu Cynllun Casglu a gaiff eu cyhoeddi fel diwygiadau i'r ddogfen hon.

2.4 Dylai Aelodau a Phrynwyr nodi nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru (o dan unrhyw amgylchiadau) yn gwarantu dilysrwydd na gwerth na chyflwr y gweithiau celfyddydol sy'n destun

unrhyw drafodyn a chytundeb drwy'r Cynllun Casglu. Nid yw hyn yn effeithio ar hawliau statudol y Prynwr.

2.5 Aelodau yn unig gaiff weithredu gwasanaeth Cynllun Casglu.

## 3. Gwneud Cais i fod yn Aelod o'r Cynllun Casglu

3.1 Gall orielau sy'n gweithredu fel unig fasnachwyr, partneriaethau neu gwmnïau wneud cais i fod yn Aelod o'r Cynllun Casglu, ond rhaid i unrhyw unig fasnachwr fod dros 18 oed.

3.2 Gall ceisiadau gan orielau sy'n dymuno ymuno â'r Cynllun Casglu gael eu gwneud ar unrhyw amser:

- Mae pecynnau cais ar gael gan y Cydlynydd (Cynllun Casglu) a rhaid cyflwyno ceisiadau wedi'u cwblhau i'r Cydlynydd
- Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadarnhau y derbyniwyd cais yr oriel
- Gwirir addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn Aelod cyn gynted â phosibl wedi i'r cais gael ei dderbyn
- Caiff y penderfyniad ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd ei gyfathrebu wrth yr ymgeisydd, yn ysgrifenedig, ar y cyfle cyntaf.

3.3 Bydd ymgeiswyr y bernir eu bod yn addas i ymaelodi yn symud ymlaen i gael eu hasesu'n llawn gan Gyngor Celfyddydau Cymru pan fydd adnoddau ariannol a gweinyddol digonol ar gael.

3.4 Bydd y weithdrefn asesu fel a ganlyn:

i. Bydd enwebai Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymweld â'r oriel, yn cyfarfod â staff priodol ac yn gofyn cwestiynau pellach
ii. Caiff adroddiad gwerthuso ei lunio, yn seiliedig ar y meini prawf sydd wedi'u gosod allan yn amod 4
iii. Ar sail yr adroddiad uchod, gwneir argymhellion i Reolwr Portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru sydd â chyfrifoldeb am y Cynllun Casglu ynghylch p'un a ddylai cais yr oriel gael ei gymeradwyo neu ei wrthod
iv. Os bydd yr oriel yn aflwyddiannus, caiff ei hysbysu ynghylch pa feini prawf y methodd â'u cyrraedd.

3.5 Wrth dderbyn cais, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud ymholiadau rhesymol ynglŷn â'r ymgeisydd (os mai unig fasnachwr yw'r oriel sy'n gwneud cais), y partneriaid (os mai partneriaeth yw'r oriel sy'n gwneud cais), a'r ymgeisydd a'i gyfarwyddwyr a'i randdeiliaid (os mai cwmni yw'r oriel sy'n gwneud cais) er mwyn sicrhau nad ydynt yn fethdalwyr nas rhyddhawyd, yn gyfarwyddwyr a anghymhwyswyd nac yn bersonau a feddant ar Ddyfarniadau Llys Sirol neu gollfarnau heddlu anfoddhaol a fyddai, ym marn Cyngor Celfyddydau Cymru, yn effeithio'n andwyol ar weinyddiad y Cynllun Casglu ac yn peryglu ewyllys da'r Cynllun Casglu.

3.6 Rhaid i bob aelod fod yn gallu gweithredu cyfrif banc yn y Deyrnas Unedig, ac yn gallu gweinyddu gweithdrefnau bancio safonol ar daliadau rheolaidd a thaliadau BACS o'u safleoedd masnachu neu Oriel.

3.7 Drwy gyflwyno cais i fod yn aelod o'r Cynllun Casglu, mae'r oriel a'i chyfarwyddwyr, ei rheolwyr, ei phwyllgorau a'i staff yn gwneud cynnig i danysgrifio i wasanaeth Cynllun Casglu a chanlyniad hynny, pe caiff ei dderbyn gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fydd creu contract sydd yn rhwymo mewn cyfraith. Ystyrir y bydd yr oriel wedi derbyn hyn, a bydd aelodaeth yr oriel yn cychwyn, pan fydd enwebai Cyngor Celfyddydau Cymru yn cydlofnodi'r ffurflen gais ac yn hysbysu'r oriel y bu ei chais yn llwyddiannus.

## 4. Meini Prawf Asesu Orielau

4.1 Wrth asesu cais gan oriel i fod yn aelod, mae'n ofynnol gan Gyngor Celfyddydau Cymru y cyrhaeddir y meini prawf aelodau canlynol:

i. rhaid bod i'r oriel swyddogaeth sylweddol o gynorthwyo i arddangos a gwerthu Gweithiau Gwreiddiol;
ii. rhaid i'r oriel fod yn ymrwymedig i raglen o arddangosfeydd gan amrywiaeth o Artistiaid Proffesiynol yn cynnwys artistiaid yng Nghymru;
iii. rhaid i ardal arddangosfa'r oriel fod yn agored i'r cyhoedd, gydag oriau agor rheolaidd wedi'u hysbysebu'n glir (nid drwy apwyntiad yn unig);
iv. rhaid bod aelod o staff yr oriel ar gael yn yr oriel bob amser, ac yn gallu ac yn barod i:
    a) siarad am waith a'r arddangosfa, a
    b) gweithredu gwerthiant;
v. rhaid i'r oriel stocio ac arddangos cyfran uwch o Weithiau Gwreiddiol. Ni chaiff fod mai rhoddion/atgynyrchiadau a fasgynhyrchwyd yw blaenoriaeth yr oriel;
vi. rhaid i'r oriel fod ag ymrwymiad i farchnata ac annog gwerthiant, a strategaeth ar gyfer hynny. Rhaid i hyn gynnwys y cymysgedd priodol o ddulliau cyfathrebu drwy'r post, e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol i ymwelwyr a chysylltiadau'r cyfryngau;
vii. rhaid i'r oriel hybu cydraddoldeb mynediad i bawb. Rhaid i hyn gynnwys gwneud pob ymdrech i ganiatáu mynediad i bobl anabl i'r gofod arddangos (ceir mwy o wybodaeth am ymrwymiad Cyngor Celfyddydau Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth fan hyn);
viii. wrth gytuno i arddangos gwaith artistiaid, rhaid i'r oriel lunio cytundeb ysgrifenedig a lofnodir gan yr oriel a'r artist sy'n datgan 1) bod yr oriel yn gweithredu ar ran yr artist, 2) p'un a fydd y gwaith yn cael ei arddangos neu'n cael ei gadw mewn storfa, 3) am ba gyfnod y caiff y gwaith ei gadw gan yr oriel, 4) y pris gwerthu a gytunwyd, 5) y gyfradd gomisiwn a godir gan yr oriel o ganlyniad i werthu, a 6) telerau talu'r artist (dim mwy na 30 diwrnod). Rhaid i restr o weithiau a gedwir gael ei llunio a'i rhoi i'r artist;
ix. rhaid i'r oriel gynhyrchu bil gwerthiant unwaith y bydd gwerthiant wedi ei gytuno, a rhaid iddi roi copïau i'r prynwr a'r artist (nid oes angen i'r oriel anfon copi o hyn ymlaen at Gyngor Celfyddydau Cymru, ond rhaid ei fod ar gael pe gofynnir am ei weld);

x. rhaid i'r oriel fod â chofnod masnachu o ddim llai na deuddeg mis, ond gallai Cyngor Celfyddydau Cymru ystyried orielau sydd â chofnod masnachu byrrach os oes gan y personél dan sylw brofiad blaenorol llwyddiannus o'r Cynllun Casglu;

xi. ni ddylai'r ymgeisydd (os mai unig fasnachwr yw'r oriel sy'n gwneud cais), y partneriaid (os mai partneriaeth yw'r oriel sy'n gwneud cais) a'r ymgeisydd a'i gyfarwyddwyr a'i randdeiliaid (os mai cwmni yw'r oriel sy'n gwneud cais) fod yn fethdalwyr nas rhyddhawyd, yn gyfarwyddwyr a anghymhwyswyd nac yn bersonau a feddant ar Ddyfarniadau Llys Sirol neu gollfarnau heddlu anfoddhaol a fyddai, ym marn Cyngor Celfyddydau Cymru, yn effeithio'n andwyol ar weinyddiad y Cynllun Casglu a/neu'n peryglu ewyllys da'r Cynllun Casglu.

4.2 Wrth asesu cais yr oriel am aelodaeth, bydd enwebai Cyngor Celfyddydau Cymru hefyd yn rhoi ystyriaeth i olwg cyffredinol yr oriel. Telir sylw yn benodol i'r modd y caiff y gweithiau celfyddydol a chrefftwaith eu harddangos i sicrhau amodau arddangos manteisiol. Nodir hefyd ba wybodaeth sydd ar gael am y gwaith a arddangosir.

4.3 Wrth asesu cais yr oriel am aelodaeth, bydd ymweliad yr enwebai yn anffurfiol, ac ni fydd angen cyfweld â staff.

## 5. Monitro'r Aelodau a therfynu aelodaeth

5.1 Wrth dderbyn aelodaeth o wasanaeth Cynllun Casglu, ystyrir y bydd yr oriel a'i chyfarwyddwyr, ei rheolwyr, ei phwyllgorau a'i staff drwy hynny wedi cytuno i holl amodau a gweithdrefnau gwasanaeth Cynllun Casglu.

5.2 O leiaf ddwywaith y flwyddyn, bydd enwebai o Gyngor Celfyddydau Cymru yn ymweld ag Aelodau'r Cynllun Casglu i gwblhau ffurflen sy'n asesu a yw'r oriel yn parhau i gydymffurfio ag amodau aelodaeth.

5.3 Os yw Aelod yn dod yn ymwybodol nad yw mwyach yn cydymffurfio ag amodau aelodaeth, rhaid iddo hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru o hyn ar unwaith yn ysgrifenedig.

5.4 Os yw'r asesiad o'r Aelod yn darparu tystiolaeth nad yw'r oriel mwyach yn cydymffurfio ag amodau aelodaeth y Cynllun Casglu, bydd enwebai o Gyngor Celfyddydau Cymru yn gwneud apwyntiad i drafod meysydd o bryder penodol. Gwneir penderfyniad terfynol wedyn ynglŷn â therfynu neu barhau â'r aelodaeth o'r Cynllun Casglu.

5.5 Bydd yr aelodaeth hefyd yn dod i ben os oes newid ym mherchnogaeth yr oriel. Os yw Aelod yn dod yn ymwybodol y bydd ei pherchennog yn newid, rhaid iddi hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru o hyn ar unwaith yn ysgrifenedig. Os yw'r perchennog newydd yn dymuno i'r oriel ddod yn aelod o'r Cynllun Casglu, rhaid iddo/iddi wneud cais o'r newydd a chaiff ei (h)ystyried yn ymgeisydd newydd.

5.6 Rhaid i'r Aelod hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru ar unwaith yn ysgrifenedig o unrhyw newid i enw neu gyfeiriad yr Aelod-Oriel.

5.7 Wrth dderbyn Aelodaeth o wasanaeth Cynllun Casglu, bydd yr oriel a'i chyfarwyddwyr, ei rheolwyr a'i staff yn cytuno i ddarparu i Gyngor Celfyddydau Cymru, o bryd i'w gilydd ac fel sy'n ofynnol, fanylion nifer a gwerth gwerthiannau gweithiau celfyddydol gan artistiaid byw, p'un a yw'r rhain yn rhan o wasanaeth Cynllun Casglu ai peidio. Bydd y wybodaeth hon (sy'n hanfodol i Gyngor Celfyddydau Cymru fonitro effeithiau gwasanaeth Cynllun Casglu) at ddefnydd mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn unig a chaiff ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

5.8 Bydd Aelod Cynllun Casglu yn sicrhau bod rhestr o bob artist a gynrychiolir gan yr oriel ar gael ar gais i Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru o unrhyw newidiadau a wneir. Caiff pob gwybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.

5.9 Bydd Aelod Cynllun Casglu yn sicrhau bod cyfrifon wedi'u harchwilio ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru ar gais. Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn gyfrinachol.

5.10 Gall Aelod ddadymaelodi o wasanaeth Cynllun Casglu ar unrhyw adeg drwy roi tri mis o hysbysiad ymlaen llaw, yn ysgrifenedig, i Gyngor Celfyddydau Cymru.

5.11 Pan gaiff aelodaeth ei therfynu, gall oriel wneud cais o'r newydd ar ôl cyfnod o 12 mis.

## 6. Gweithiau Cymwys

6.1 Mae benthyciadau'r Cynllun Casglu ar gael yn unig i gynorthwyo i brynu (ar wahân i ailwerthu) gweithiau celfyddydol sy'n cyrraedd y meini prawf a osodir yn yr amod 6.1 hwn:

i. rhaid i'r gwaith fod yn Waith Gwreiddiol gan Artist Proffesiynol byw (yn amodol ar amodau 6.7, 6.8 a 6.9 isod);
ii. rhaid i'r gwaith ddangos gwreiddioldeb;
iii. rhaid i'r gwaith ddangos ymarfer cyfoes neu ail-briodoli dulliau ac arddulliau traddodiadol y tu hwnt i atgynhyrchu;
iv. rhaid i'r gwaith fodoli a bod wedi'i gwblhau ar adeg cais am fenthyciad y Cynllun Casglu. Nid yw benthyciadau'r Cynllun Casglu ar gael ar gyfer comisiynu gweithiau celfyddydol neu grefftwaith.

6.2 Ni ellir defnyddio'r Cynllun Casglu ar gyfer ailwerthu gweithiau.

6.3 Os yw'r gwaith o nifer gyfyngedig, rhaid i'r oriel gofnodi rhif/maint y rhifyn ar gytundeb y benthyciad.

6.4 Mae gweithiau sy'n **anghymwys** am fenthyciadau drwy'r Cynllun Casglu yn cynnwys:

i. gweithiau a grewyd drwy gyfosod neu addurno cydrannau a brynwyd i mewn
ii. rhoddion a fasgynhyrchwyd (a allai gynnwys eitemau a wnaed neu a orffennwyd â llaw)
iii. gweithiau a gynhyrchwyd heb i'r artist neu'r crefftwr a enwir ymarfer rheolaeth bersonol dros y broses gynhyrchu
iv. atgynyrchiadau o weithiau a gynhyrchwyd yn wreiddiol mewn cyfrwng arall
v. rhediadau printio o dros 150 mewn nifer

6.5 Dim ond mewn perthynas â Gwaith y dylai Aelod gyflwyno cais am fenthyciad y Cynllun Casglu.

6.6 Mewn unrhyw achos o amheuaeth, gwneir dyfarniad gan swyddog arbenigol o Gyngor Celfyddydau Cymru, a bydd ei benderfyniad/phenderfyniad ynglŷn â ph'un a yw gwaith penodol yn gymwys ar gyfer benthyciad Cynllun Casglu yn derfynol.

6.7 Pe byddai'r artist farw cyn neu yn ystod arddangosfa, ar ôl i'r arddangosfa gael ei threfnu, bydd y gweithiau yn dal i fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Casglu dros gyfnod yr arddangosfa.

6.8 Yn achos artist yn marw ar ôl i gais am fenthyciad Cynllun Casglu gael ei wneud, caiff y cais ei brosesu fel pe byddai'r artist yn dal yn fyw. Mewn achos o'r fath, cyfrifoldeb yr Aelod, os yw'n gweithredu fel asiant i'r artist a fu farw, yw sicrhau bod y gwaith dan sylw yn dal i fod ar werth a hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru ar unwaith pe caiff y gwaith ei dynnu'n ôl o fod ar werth. Cyfrifoldeb yr Aelod hefyd fydd hysbysu Cyngor Celfyddydau Cymru ar unwaith pe byddai un o'i artistiaid sefydlog yn marw.

6.9 Ni fydd marwolaeth yr artist wedi i werthiant gwaith gael ei gwblhau, ond cyn i'r gweddill sy'n ddyledus ar fenthyciad y Cynllun Casglu gael ei dalu, yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y berthynas gontractiol rhwng y Prynwr a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

CYNLLUN CASGLU
COLLECTORPLAN

# GWEITHREDU'R CYNLLUN CASGLU

## 1. Diffiniadau a Dehongliadau

1.1 Oni nodir yn wahanol, bydd i bob ymadrodd a ddiffinnir yr un ystyr ag yn yr **Amodau Aelodaeth.**

1.2 Yn y canllawiau hyn, bydd i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol.

| | |
|---|---|
| **Dyraniad** | swm o arian a glustnodwyd ar gyfer benthyciadau i gwsmeriaid yr Aelod sy'n effeithiol am gyfnod o 12 mis yn cychwyn ar 1 Ebrill |

## 2. Cyflwyniad

2.1 Gwasanaeth a weithredir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw'r Cynllun Casglu. Drwy'r Cynllun Casglu, gall unigolion preifat gael benthyg arian (yn ddi-log) i gynorthwyo i brynu Gweithiau oddi wrth orielau yng Nghymru sy'n Aelodau o wasanaeth Cynllun Casglu.

2.2 Mae'r canllawiau hyn yn disgrifio gwasanaeth Cynllun Casglu a'r amodau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu aelodaeth oriel. Bydd pob disgrifiad o'r Cynllun Casglu a phob hysbyseb, datganiad neu gyhoeddiad yn ymwneud ag ef yn seiliedig ar wasanaeth Cynllun Casglu fel a amlinellir yn yr amodau hyn ac yn gyson â hynny.

2.3 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadw'r hawl i wneud newidiadau neu ddiwygiadau i'r polisïau, y gweithdrefnau, y rheolau a'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r Cynllun Casglu a gaiff eu cyhoeddi fel diwygiadau i'r ddogfen hon.

2.4 Aelodau yn unig gaiff weithredu gwasanaeth Cynllun Casglu.

## 3. Dilysrwydd y Gweithiau

3.1 Dylai Aelodau a Phrynwyr nodi nad yw Cyngor Celfyddydau Cymru (o dan unrhyw amgylchiadau) yn gwarantu dilysrwydd na gwerth na chyflwr y gweithiau celfyddydol sy'n destun unrhyw drafodyn a chytundeb drwy'r Cynllun Casglu. Nid yw hyn yn effeithio ar hawliau statudol y Prynwr.

3.2 Ni ddylai Aelodau gynrychioli mewn unrhyw fodd, bod Cyngor Celfyddydau Cymru neu unrhyw waith papur a gynhyrcha Cyngor Celfyddydau Cymru neu unrhyw gais am fenthyciad a gymeradwya Cyngor Celfyddydau Cymru (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), yn cynrychioli unrhyw gadarnhad annibynnol na datganiad o ddilysrwydd unrhyw hawliadau dilysrwydd. Rhaid

i Brynwyr fodloni eu hunain ynghylch rhinwedd, gwerth, cyfle buddsoddi, dilysrwydd a chyflwr unrhyw waith celfyddydol a brynir drwy'r cynllun.

3.3 Dylai'r Aelodau, fel mater o ymarfer busnes teg, bwysleisio wrth y Prynwr bod yr artist wedi cynrychioli bod gan yr artist brawf dilysrwydd bod y gwaith celfyddydol yn Waith Gwreiddiol. Ond, pe byddai'r Aelod yn ailadrodd unrhyw ddisgrifiad anwir neu anghywir, yn rhoi sicrwydd anwir neu'n cam-ddatgan amod ynghylch dilysrwydd, y mae naill ai'n ddatganiad y mae'r Aelod yn atebol amdano fel asiant yr artist a roddodd y disgrifiad, y sicrwydd, neu'r amod, neu'n ddatganiad y mae'r Aelod yn atebol amdano fel awdur y datganiad.

## 4. Y Prynwr

4.1 Unigolion preifat yn unig gaiff wneud cais am fenthyciad Cynllun Casglu a'i dderbyn.

4.2 Mae benthyciadau'r Cynllun Casglu ar gael i drigolion y Deyrnas Unedig sydd dros 18 oed yn unig. Y mae disgwyl na fydd unrhyw weithiau celfyddydol neu grefftwaith a brynir drwy'r cynllun yn cael ei symud o'r Deyrnas Unedig yn ystod cyfnod y benthyciad.

4.3 Mae'n rhaid bod gan y Prynwr gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a all dderbyn debydau uniongyrchol.

4.4 Ni fydd benthyciadau'r Cynllun Casglu ar gael i Brif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru, nac aelodau eraill yr Uwch Dîm Rheoli na Phennaeth Cyllid a Gwasanaethau Cyfrifyddu.

## 5. Y Gwasanaeth

5.1 Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am weithredu gwasanaeth ac ariannu benthyciadau'r Cynllun Casglu, o dan enwau "Cyngor Celfyddydau Cymru", "Arts Council of Wales", "Cynllun Casglu" a "Collectorplan".

5.2 Mae telerau'r Cynllun Casglu yn cyd-fynd â pharamedrau Gorchymyn Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2001 (SI 2015/352) diwygiedig sy'n negyddu'r angen i Aelodau gael awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

5.3 Nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am unrhyw gynnyrch ariannol eraill a gynigir gan Aelodau, nac i'w gysylltu â hwy mewn unrhyw fodd.

## Telerau Benthyciad y Cynllun Casglu

## 6. Cyfyngiad Credyd

6.1 Gellir cynnig credyd o £50 hyd at fwyafswm o £5,000 tuag at unrhyw un pryniad neu grŵp o bryniadau. Gall y Prynwr wneud cais am fenthyciad i dalu am y cyfan neu unrhyw ran o'r pris o un neu ragor o weithiau hyd at gyfyngiad credyd personol o £5,000. Mae'r cyfyngiad credyd o

£5,000 yn berthnasol i unrhyw gais newydd a wneir gan y Prynwr, ac unrhyw ddyled bresennol sydd ganddo/ganddi i Gyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â benthyciadau dyledus.

6.2 Gallai Prynwr wneud cais am fenthyciadau'r Cynllun Casglu i brynu un neu ragor o weithiau ar un achlysur, neu ar achlysuron gwahanol a hynny drwy unrhyw nifer o Aelodau'r Cynllun Casglu, cyhyd â nad yw'r cyfanswm sy'n ddyledus i Gyngor Celfyddydau Cymru byth yn fwy na £5,000.

6.3 Os yw'r pris prynu yn fwy na'r benthyciad sydd ar gael, rhaid i'r Prynwr dalu unrhyw wahaniaeth (rhwng y pris prynu a benthyciad y Cynllun Casglu) i'r oriel ar adeg y prynu.

6.4 Ni all pryniadau eitemau unigol fod yn llai na £50.

6.5 Rhaid i'r Prynwr dalu o leiaf 10% o flaendal, yn uniongyrchol i'r oriel, ar bob benthyciad. Os yw'r pris prynu yn fwy na mwyafswm y benthyciad sydd ar gael o £5,000, bydd y lleiafswm o 10% o flaendal ond yn berthnasol i bryniadau hyd at £5,555. Yn achos pryniadau sy'n fwy na £5,555, bydd adran 6.3 yn berthnasol.

## 7. Yr Ad-daliadau

7.1 Caiff benthyciad y Cynllun Casglu ei ad-dalu mewn rhandaliadau misol drwy ddebyd uniongyrchol.

7.2 Y cyfnod hwyaf i ad-dalu benthyciad y Cynllun Casglu yw 12 mis. Gallai'r Prynwr ddewis ad-dalu'r benthyciad dros unrhyw nifer o fisoedd, cyhyd â'i fod/bod yn glynu wrth y cyfnodau hwyaf o ad-dalu a nodir uchod.

7.3 Lleiafswm ad-daliad misol yw £10.

## 8. Y Dyraniad

8.1 Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru swm cyfyngedig ar gael ar gyfer benthyciadau, ac felly mae angen clustnodi symiau o arian i Aelodau ar ffurf Dyraniad.

8.2 Rhoddir Dyraniad i bob Aelod a gyfrifir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

8.3 Caiff Aelod ei hysbysu o'i Ddyraniad yn flynyddol, a gallai gael ei addasu yn seiliedig ar y galw am fenthyciadau drwy'r Aelod a'r adnoddau sydd ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru at ddefnydd benthyciadau.

8.4 Gobeithia Cyngor Celfyddydau Cymru allu cefnogi benthyciadau y tu hwnt i'r Dyraniad i Aelod penodol os yw'r galw yn fwy na'r disgwyl, ond bydd hyn bob amser yn dibynnu ar gydbwysedd y galw gan bob oriel a'r pwysau ar adnoddau Cyngor Celfyddydau Cymru.

8.5 O bryd i'w gilydd, os yw'r pwysau ar adnoddau Cyngor Celfyddydau Cymru yn golygu bod angen cyfyngu ar gymorth i fenthyciadau hyd yn oed oddi mewn i Ddyraniad Aelod penodol, caiff yr Aelod ei hysbysu o'r sefyllfa gan y Cydlynydd (Cynllun Casglu).

## 9. Ffioedd

9.1 Codir ffi ar bob Aelod yn unol â'i ddefnydd o'r Cynllun Casglu ar gyfradd o 4% o werth pob benthyciad.

9.2 Caiff y ffi ei hanfonebu bedair gwaith y flwyddyn ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf a 1 Hydref a chaiff ei gyfrifo ar werth y benthyciadau yn ystod y cyfnod blaenorol o dri mis.

9.3 Caiff yr anfoneb fel arfer ei hanfon i'r Aelod gyda'i gyfriflen credyd nesaf, ac os felly bydd y ffi wedi ei didynnu o'r swm sy'n ddyledus mewn perthynas â gwerth y benthyciad(au) ar yr achlysur hwnnw. Ond os nad oes taliad yn ddyledus i'r Aelod o fewn cyfnod rhesymol ar ôl codi anfoneb y ffioedd, caiff yr anfoneb ei hanfon i'r Aelod a bydd yr Aelod yn ymgymryd i'w thalu o fewn 14 diwrnod.

9.4 Bydd y ffi sydd wedi ei gosod allan yn amod 9.1 yn daladwy gan yr Aelod, ac ni ddylid, dan unrhyw amgylchiadau, ei throsglwyddo i'r artist. Byddai hyn yn uniongyrchol yn erbyn ysbryd y cynllun a'r rheoliadau sy'n ei lywodraethu. Bydd mynd yn groes i'r amod hwn yn arwain at derfynu aelodaeth yr Aelod ar unwaith.

9.5 Ym mhob achos, rhaid i bris arian parod a phris ar gredyd am waith a gynigir ar werth gan yr Aelod fod yn hafal.

## 10. Yr Aelod a'r Prynwr – cwblhau cais am gytundeb benthyciad

10.1 Rhaid i'r Aelod sicrhau bod y Prynwr wedi darllen "Nodyn Pwysig i'r Prynwr" a'r "Telerau ac Amodau" sydd i'w gweld ar ffurflen Cytundeb y Benthyciad.

10.2 Os yw'r Prynwr, ar ôl ei ddarllen, yn dymuno bwrw ymlaen â'r cytundeb, bydd **yr Aelod a'r Prynwr** yn cwblhau'r adrannau canlynol o Gytundeb y Benthyciad:

- Manylion y Prynwr
- Gwybodaeth Ariannol Allweddol
- Gwybodaeth Ariannol Arall

*Gellir gwneud hyn ar fersiwn electronig y ffurflen ac wedyn ei hargraffu, ar fersiynau print o'r fersiwn electronig, neu gan ddefnyddio'r ffurflenni a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru.*

10.3 Bydd y **Prynwr** yn cwblhau ac yn llofnodi'r mandad debyd uniongyrchol ar wahân. Bydd yr **Aelod** yn llenwi ei (h)enw a chyfeiriad ar yr un mandad.

10.4 Bydd yr **Aelod** wedyn yn gwirio bod y Prynwr wedi cwblhau a llofnodi ei (h)adrannau o'r ddwy ffurflen yn gywir, a bod pob copi o'r ddau yn ddarllenadwy. Bydd yr Aelod wedyn:

- Yn anfon y copi gwreiddiol i Gyngor Celfyddydau Cymru, ynghyd â phrif ran y mandad debyd uniongyrchol
- Gall wneud copi/copïau i'r Prynwr gymryd a/neu i'r Aelod gadw.

10.5 Ar ôl eu derbyn, caiff ffurflenni cyfan Cytundeb y Benthyciad a'r debyd uniongyrchol wedi'u cwblhau eu gwirio gan y Cynorthwyydd Cyfrifon (Cynllun Casglu) a bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cychwyn ar wiriad credyd. Os yw hyn yn foddhaol, caiff ffurflen y Cytundeb ei gwirio gan y Swyddog Awdurdodi, a fydd wedyn yn ei llofnodi ac yn rhoi'r dyddiad.

10.6 Bydd y Cynorthwyydd Cyfrifon wedyn yn trefnu taliad drwy BACS i gyfrif banc yr Aelod a bydd hefyd yn anfon hysbysiad talu yn uniongyrchol i'r Aelod.

10.7 Bydd y Cynorthwyydd Cyfrifon wedyn yn anfon y mandad debyd uniongyrchol i fanc y Prynwr ac yn anfon copi o Gytundeb y Benthyciad wedi'i lofnodi i'r Prynwr, o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad llofnodi'r swyddog awdurdodi. Anfonir copi i'r Aelod hefyd.

10.8 Rhaid i'r Prynwr fod â'i gopi/chopi o Gytundeb y Benthyciad yn ei feddiant/meddiant cyn iddo/iddi allu casglu'r gwaith gan yr Aelod. Y mae'n dilyn, felly, na ddylai'r Aelod ryddhau'r gwaith hyd nes bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cwblhau'r gwiriad credyd a phrosesu'r cais. Os yw'r gwaith wedi'i ryddhau cyn i'r broses hon gael ei chwblhau, nid yw Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwarantu (o dan unrhyw amgylchiadau) y bydd yn talu unrhyw swm i'r Aelod na'r artist.

10.9 Yn olaf, bydd yr Aelod yn anfon y swm a gytunwyd ymlaen i'r Artist o fewn 30 diwrnod i'r Aelod dderbyn ei arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn trosglwyddo'r gwaith i'r Prynwr o fewn 5 diwrnod gwaith i daliad y swm o gredyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i'r Aelod (Gallai methu â chydymffurfio â'r amod hwn arwain at derfynu aelodaeth yr Aelod a gallai fod yn ofynnol i'r Aelod ddarparu tystiolaeth o daliad o'r fath i'r artist pe gofynnir am hynny gan Gyngor Celfyddydau Cymru.)

## 11. Awdurdodiadau a Gwiriadau

11.1 Pan dderbynnir cais am fenthyciad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gwneir y gwiriadau canlynol:

i. bod arian digonol yn nyraniad yr Aelod i roi'r benthyciad
ii. na fydd y Prynwr, os yw wedi prynu o'r blaen, yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad o gyfanswm o £5,000 o fenthyciadau wrth gymryd benthyciad pellach, ac os yw'r Prynwr wedi cael benthyciad blaenorol a/neu bod ganddo/ganddi fenthyciad presennol, y cafodd/caiff y benthyciad ei ad-dalu yn unol â thelerau Cytundeb y Benthyciad
iii. gwneir ymholiad i asiantaeth gwirio credyd ynghylch unrhyw Ddyfarniadau Llys Sirol neu broblemau gwybyddus. Os oes problem yn codi ynglŷn â chanlyniad y gwiriad credyd, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ysgrifennu'n uniongyrchol at y Prynwr i'w hysbysu na fydd yn bosibl bwrw ymlaen â'r cais (anfonir copi o'r llythyr i'r Aelod hefyd)
iv. os yw'n fenthyciad o £1,000 neu fwy, efallai y gofynnir am eirda drwy fanc y Prynwr

11.2 Wedi i bob gwiriad gael ei gwblhau gan y Cynorthwyydd Cyfrifon, bydd ffurflen Cytundeb y Benthyciad gyfan yn cael ei gwirio a'i llofnodi gan y swyddog awdurdodi.

Y “swyddog awdurdodi” fel arfer fydd yr Uwch Swyddog Cyllid sydd â chyfrifoldeb dydd-i-ddydd am reolaeth ariannol y Cynllun Casglu. Yn ei (h)absenoldeb, caiff Cytundebau Benthyciadau eu hawdurdodi gan Bennaeth Cyllid a Gwasanaethau Cyfrifyddu, Swyddog Cyllid arall, Rheolwr Portffolio (sydd â chyfrifoldeb am y Cynllun Casglu) neu gan unrhyw aelod o’r Uwch Dîm Rheoli.